

Astudiaeth Trafnidiaeth A483 Llandeilo a Ffair-fach


Croeso i’r Ymgynghoriad

Fe’ch gwahoddir i ystyried opsiynau trafnidiaeth posibl i fynd i’r afael â materion o bryder ynghylch y rhwydwaith ffyrdd presennol yn nhref Llandeilo a phentref Ffair-fach.

Mae’r ymgynghoriad yn gam pwysig yn y broses Arweiniad ar Gynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG 2017), ac yn darparu adborth ynghylch Cam 1: Achos Amlinellol WelTAG a gynhaliwyd gan Jacobs UK Ltd (Jacobs) a Mott MacDonald. Fel rhan o’r ymgynghoriad, croesewir adborth mewn perthynas â’r opsiynau sy’n weddill.

Bydd yr Achos Amlinellol ar Gam Un yn hysbysu Cam Dau: Achos Busnes Amlinellol WelTAG, y mae Capita Property and Infrastructure yn ei gynnal ar ran Llywodraeth Cymru.

Ardal yr Astudiaeth (Llandeilo a Ffair-fach)



Yr achos dros newid: Pam mae angen gwelliannau?

Nodwyd y canlynol fel materion o bryder:

- Diogelwch;
 - Cyflymdra traffig;
 - Cyfyngiadau’r rhwydwaith;
 - Parcio;
 - Llif traffig tymhorol;
 - Llwybrau dargyfeirio annigonol;
- Amgylchedd defnyddwyr heblaw modurwyr;
 - Dim seilwaith beicio;
 - Cyfeirio defnyddwyr heblaw modurwyr;
 - Ansawdd trafnidiaeth gyhoeddus;
 - Llygredd; a
 - Sŵn.


Beth fydd yn digwydd heb unrhyw newid? (Opsiwn Gwneud y Lleiafswm)

- Os na fydd newidiadau i’r A483 a’r rhwydwaith ffyrdd cyfagos, bydd y tagfeydd traffig cyfredol, yn arbennig wrth y man cul o flaen y Cawdor yn Llandeilo, yn parhau.
- Bydd y tagfeydd a cherbydau segur yn gyfochr ag ardaloedd preswyl yn parhau i gael effaith niweidiol ar sŵn ac ansawdd yr aer.
- Bydd y treflun a’r dreftadaeth ddiwylliannol yn parhau i ddioddef effeithiau niweidiol yn sgil tagfeydd mewn Ardal Gadwraeth ac yn gyfochr ag adeiladau rhestredig.
- Bydd effaith ychydig yn niweidiol yn parhau o safbwynt newidiadau/dibynadwyedd amseroedd teithio, gweithgaredd corfforol, ansawdd teithio, damweiniau, mynediad at gyflogaeth/gwasanaethau, gwahanu cymunedau a theithio llesol.

Beth ydym ni'n ceisio'i gyflawni?

Beth yw WelTAG?

WelTAG (2017) yw fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu, arfarnu a gwerthuso prosiectau trafnidiaeth arfaethedig yng Nghymru. Mae gofyn defnyddio'r broses i werthuso unrhyw brosiect sydd angen arian cyhoeddus. Pum cam WelTAG yw:



Astudiaeth Cam Un

Pwrpas Cam Un yw *'deall y pryder dan sylw, archwilio'r cyd-destun a chyflwyno rhestr eang o atebion posibl, sy'n ddigon i allu penderfynu a oes unrhyw atebion posibl yn y sector trafnidiaeth y mae'n werth mynd ar eu hôl nhw ac i ddewis rhestr fer o opsiynau ar gyfer eu hystyried yn fanylach.'*

Nodwyd y prif broblemau sy'n effeithio ar Landeilo a Ffair-fach gan Jacobs UK Ltd (Jacobs) a Mott MacDonald trwy gyfres o weithdai, digwyddiadau fforwm cyhoeddus a barn broffesiynol yn seiliedig ar adolygiadau gwybodaeth mewnol wrth ddesg, arolygiadau ac ymweliadau safle.

Ar ôl nodi'r angen am ryw fath o gynllun ymyrryd, cytunwyd ar amcanion ar gyfer y prosiect a gafodd eu hystyried wrth asesu opsiynau.

Yn ystod y ddau ddigwyddiad fforwm cyhoeddus ar 13 a 28 Chwefror 2018, gofynnwyd i randdeiliaid nodi atebion a allai fynd i'r afael â'r meysydd pryder. Cafodd yr atebion hyn, ynghyd ag atebion pellach a nodwyd gan y tîm prosiect, eu cyfuno i ffurfio rhestr hir o opsiynau.

Y canlyniad yw Cam Un: Achos Amlinellol, a ddatblygwyd yn 2018 gan Jacobs UK Ltd (Jacobs) a Mott MacDonald, sy'n cynnwys 41 opsiwn rhestr hir a werthuswyd yn erbyn y nodau a osodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sef:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.
- Cymru sy'n fwy cyfartal;

Opsiynau i fynd ymlaen i Asesiad Cam Dau

Opsiynau ar y rhestr fer

Yn seiliedig ar yr arfarniad, mae’r opsiynau sy’n sgorio uchaf, ac o ganlyniad y rhai yr argymhellir eu hystyried ymhellach yng Nghyfnod Dau WelTAG, wedi’u crynhoi isod. Mae pob opsiwn wedi’i ddyrannu i fandiau cost:

(Isel) llai na £50m

(Canolig) £50m i £60m

(Uchel) dros £60m

Cyfeirnod yr Opsiwn	Disgrifiad o’r Opsiwn
NB1	Goleuadau traffig, dim ffordd osgoi
NB2	Dileu parcio, dim ffordd osgoi
NB5	Cyfyngiad HGV (cosb gyfreithiol) a system unffordd
NB6	Opsiwn cyfun heb ffordd osgoi (gyda chyfyngiad HGV)
NB7	Opsiwn cyfun heb ffordd osgoi (dim cyfyngiad HGV)
TC1A	System Unffordd a Ffordd Osgoi (a)
BE1A	Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (A)
BE1B	Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (B)
BE1C	Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (C)
BE4D	Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Canol Rhosmaen Opsiwn 4 (D)
BE6	Ffordd Osgoi Ddwyreiniol 6

Ar gyfer yr opsiynau hynny sydd dros £60 miliwn, rhagwelir dull fesul cam o weithredu, gyda chwblhad llawn yn seiliedig ar fonitro ac ariannu wrth i’r cynllun fynd rhagddo. Nid oes modd cyflawni opsiynau llai ffafriol gyda chost o dros £60 miliwn ar sail ystyriaethau ariannol. Dim ond o sicrhau cyllid ychwanegol y gellid cynnwys y cymalau ychwanegol i osgoi Ffair-fach ar lwybrau BE1A, BE4D a BE6. Bydd y llwybrau gorffenedig yn cael eu gwerthuso i weld a fu’r cynllun yn llwyddiant o safbwynt cyflawni ei amcanion.

Nid oes unrhyw statws i’r opsiynau a ddewiswyd. Cytunwyd arnynt fel sail ar gyfer ymgynghori gan Grŵp Adolygu o randdeiliaid allweddol.

Options to be progressed to Stage Two Assessment

Short-listed options

Based on the appraisal, the highest scoring options and therefore those which are recommended for further consideration at WelTAG Stage Two are summarised below. Each option has been allocated into cost bands:

(Low) Less than £50m

(Medium) £50m to £60m

(High) Greater than £60m

Option Reference	Option Description
NB1	Traffic lights, no bypass
NB2	Removal of parking, no bypass
NB5	HGV Restriction (legal sanction) plus one-way system
NB6	Combined No bypass Option (with HGV restriction)
NB7	Combined No bypass (No HGV restriction)
TC1A	One-way system and bypass
BE1A	Eastern Bypass Option 1 (A)
BE1B	Eastern Bypass Option 1 (B)
BE1C	Eastern Bypass Option 1 (C)
BE4D	Mid Rhosmaen Eastern Bypass Option 4 (D)
BE6	Eastern Bypass Option 6

For those options in excess of £60 million, a staged approach is envisaged with full completion based on monitoring and funding as the scheme progresses. Less favoured options with works cost in excess of £60 million are not deliverable on financial consideration. The additional tails bypassing Ffairfach as denoted on the following routes BE1A, BE4D and BE6 can only be facilitated if additional funding was granted. The completed routes will be evaluated to see whether the scheme has been a success in meeting its objectives.

The preferred options identified have no status. They have been agreed as the basis for consultation by a Review Group of key stakeholders.

NB1: goleuadau traffig, dim ffordd osgoi

NB1: Traffic Lights, no bypass

Disgrifiad:


Byddai goleuadau traffig yn cael eu gosod ar Stryd Rhosmaen i alluogi traffig unffordd tua’r de a thua’r gogledd am yn ail ar hyd rhan gulaf y ffordd. Bydd palmentydd yn cael eu lledu yn y rhan unffordd o Stryd Rhosmaen i alluogi defnydd mwy diogel gan gerddwyr.

Description:

Traffic lights would be installed on Rhosmaen Street to enable alternate one way northbound and southbound traffic along the narrowest section of the road. Pavements would be widened within the one-way section of Rhosmaen Street to enable safer use by pedestrians.

Lleoliad:

Location:



Sut mae’n mynd i’r afael â’r broblem:

Byddai NB1 yn gwella dibynadwyedd amser teithio gan y byddai darparu goleuadau traffig yn gwella llif traffig trwy’r rhannau cul o fewn Llandeilo. Byddai diogelwch cerddwyr hefyd yn gwella o ganlyniad i ledu’r palmentydd.

How it tackles the problem:

NB1 would improve journey time reliability due to providing traffic lights that would improve flows through the pinch points within Llandeilo. Pedestrian safety would also improve as result of the widening of the pavements.

Ar bwy mae’r opsiwn yn effeithio:

Gall rhai defnyddwyr ffordd ddioddef yn sgil posibilrwydd o giwio wrth y goleuadau traffig arfaethedig yng nghanol tref Llandeilo, gan gynyddu gwahanu ardaloedd o boptu’r ffordd, a cherbydau segur yn gwaethygu ansawdd yr aer. Fodd bynnag, byddai cerddwyr ar eu hennill oherwydd lledu’r palmentydd, a gall hynny wella profiad ymwelwyr, a fydd o fudd i rai busnesau yn Llandeilo a Pharc Dinefwr.

Who the option impacts on:

Some road users may dis-benefit from this option due to potential queuing from the proposed traffic lights in Llandeilo Town Centre increasing severance and idling vehicles decreasing air quality. However, pedestrians would benefit due to the widening of pavements, this may also improve visitor experience which will benefit some businesses within Llandeilo and Dinefwr Park.

NB2: dileu parcio, dim ffordd osgoi

NB2: Removal of parking, no bypass

Disgrifiad:


Dileu parcio ar hyd Stryd Rhosmaen, yn cael ei orfodi trwy linellau melyn dwbl. Cyfyngiadau ‘Llwytho yn Unig’ rhwng 18:00 a 07:00, ac yna o 10:00 tan 15:00, a gorfodi dim parcio rhwng 08:00 a 18:00.

Description:

Removal of parking along Rhosmaen Street enforced through double yellow lines. Restrictions of ‘Loading Only’ from 18:00 to 07:00, and then from 10:00 – 15:00 with no parking between 08:00 – 18:00 will be enforced.

Lleoliad:

Location:



Sut mae’n mynd i’r afael â’r broblem:

Gall NB2 leihau gwahanu ardaloedd o boptu’r A483/Stryd Rhosmaen yn Llandeilo, ynghyd â gwella dibynadwyedd taith trwy ddarparu llwybr uniongyrchol gyda thraffig yn llifo. Yn ogystal, rhagwelir y bydd cyflymdra/cyflymiad cerbydau ar yr A483 yn lleihau oherwydd lleihad yn nifer y cerbydau sy’n parcio. Byddai ychydig o welliant hefyd i ansawdd yr aer o fewn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA).

How it tackles the problem:

NB2 may reduce severance along the A483/ Rhosmaen Street within Llandeilo as well as improve journey reliability due to providing a direct, free-flow route. It is also anticipated that vehicle speeds/acceleration on the A483 would reduce due to the reduction in parked vehicles. There would be a slight beneficial effect on air quality within the AQMA.

Ar bwy mae’r opsiwn yn effeithio:

Gall holl ddefnyddwyr y ffordd elwa ychydig ar y cynllun hwn; fodd bynnag, gallai’r economi leol ddioddef yn sgil dileu parcio. Gyda dileu parcio’n rhan o’r opsiwn hwn, rhagwelir y bydd yr opsiwn hwn yn cynnig ychydig o welliant yn ansawdd yr aer yn lleol. Gall cerddwyr a beicwyr yn nhref Llandeilo hefyd gael budd yn sgil y gostyngiad mewn cerbydau’n parcio ar hyd Stryd Rhosmaen.

Who the option impacts on:

All road users might slightly benefit from this option however; the local economy may dis-benefit due to the removal of parking. The removal of parking with this option has a predicted slight beneficial effect on local air quality. Walkers and cyclists within Llandeilo Town Centre may also benefit due to the reduction of parked vehicles along Rhosmaen Street.

NB5: Cyfyngiad HGV (cosb gyfreithiol) a system unffordd, dim ffordd osgoi

NB5: HGV Restriction (legal sanction) plus one-way system, no bypass

Disgrifiad:


System unffordd gyda mynediad cyfyngedig i gerbydau HGV yn cyflenwi nwyddau o fewn Llandeilo o'r A40. Byddai Stryd Rhosmaen yn unffordd tua'r de, gyda cherbydau HGV yn cael eu cyfeirio ar hyd Stryd y Brenin i Heol Caerfyrddin ac yna yn ôl i'r A40. Byddai'r holl draffig tua'r gogledd yn defnyddio Stryd y Brenin, Stryd Caerfyrddin a Heol Newydd, cyn ailymuno â'r A483. Byddai cyfyngiadau ar gerbydau HGV i groesi Pont Llandeilo a byddai'r A483 yn colli ei statws cefnffordd.

Description:

A one-way system where there would be limited access for HGVs making deliveries within Llandeilo from the A40. Rhosmaen Street would be one-way southbound and HGVs would be directed onto King Street and Carmarthen Road, and then back to the A40. All northbound traffic would use King Street, Carmarthen Street, and New Road, before re-joining the A483. HGVs would be restricted from crossing Llandeilo Bridge in a northbound direction and the A483 will be de-trunked.

Lleoliad:

Location:



Sut mae'n mynd i'r afael â'r problem:

Gall NB5 leihau gwahanu ardaloedd o boptu'r A483/Stryd Rhosmaen yn Llandeilo, ynghyd â gwella dibynadwyedd taith trwy ddarparu llwybr uniongyrchol gyda thraffig yn llifo. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn lleihau llygredd aer o fewn yr ARhAA.

How it tackles the problem:

NB5 may reduce severance along the A483/ Rhosmaen Street within Llandeilo as well as improve journey reliability due to providing a direct, free-flow route. This option would result in a reduction in air pollution within the AQMA.

Ar bwy mae'r opsiwn yn effeithio:

Gall yr opsiwn hwn fod yn anafateisiol i ddefnyddwyr cerbydau trwm. Er y byddai ychydig o fudd i anheddau preswyl a busnesau ar ymyl yr A483, o safbwynt sŵn ac ansawdd aer yn lleol, bydd ychydig o anafateision i ffyrdd lleol hefyd, lle bydd llif traffig yn cynyddu. Byddai cerddwyr a beicwyr hefyd yn elwa gyda'r opsiwn hwn, gyda llai o gerbydau HGV yn defnyddio'r A483.

Who the option impacts on:

Heavy Goods Vehicles may disbenefit from this option. Although there will be a slight beneficial impact on residential properties located along the A483 in terms of noise and local air quality, there will also be a slight disbenefit on local roads where traffic flows will increase. Walkers and cyclists would also benefit from this option due to the reduced volume of HGVs using the A483.

NB6: Opsiwn cyfun heb ffordd osgoi (gyda chyfyngiad HGV)

NB6: Combined No bypass Option (with HGV restriction)

Disgrifiad:


Mae’r opsiwn hwn yn becyn o waith sy’n cyfuno elfennau o NB1, NB2 a NB3.

Description:

This option is a package of works representing a combination of NB1, NB2 and NB3.

Lleoliad:

Location:



Sut mae’n mynd i’r afael â’r problem:

Byddai NB6 yn gwella dibynadwyedd amser teithio trwy ddarparu llwybr uniongyrchol gyda thraffig yn llifo (er gyda goleuadau). Byddai diogelwch cerddwyr hefyd yn gwella, ynghyd â’r amgylchedd beicio, a gallai’r lleihad yn nifer y siwrneiau traffig trwodd hybu ymwelwyr. Yn ogystal, rhagwelir y bydd cyflymiad cerbydau ar yr A483 yn lleihau oherwydd lleihad yn nifer y cerbydau sy’n parcio. Byddai NB6 yn lleihau gwahanu ardaloedd o boptu’r A483/Stryd Rhosmaen. Byddai’r opsiwn hwn yn lleihau llygredd aer o fewn yr ARhAA.

How it tackles the problem:

NB6 would improve journey time reliability due to providing a direct, free-flow route (albeit with lights). Pedestrian safety would also improve as well as the cycling environment and may promote visitors as the number of through-traffic journey should decrease. It is also anticipated that vehicle acceleration on the A483 would reduce due to the reduction in parked vehicles. NB6 would reduce severance along the A483/Rhosmaen Street. This option would result in a reduction in air pollution within the AQMA.

Ar bwy mae’r opsiwn yn effeithio:

Gall yr opsiwn hwn fod yn anfanteisiol i ddefnyddwyr cerbydau ysgafn a thrwm. O ganlyniad, fodd bynnag, byddai’n cynnig ychydig o fudd i anheddau preswyl a busnesau ar ymyl yr A483, o safbwynt ansawdd aer. Mae’n debygol mai cerddwyr a beicwyr fyddai’n elwa fwyaf gyda’r opsiwn hwn, yn sgil lledu palmentydd a lleihad yn nifer y cerbydau HGV yng nghanol y dref.

Who the option impacts on:


Light and heavy vehicle users could dis-benefit from this option. However, as a result it is anticipated that there would be a slight beneficial effect on residential properties and businesses along the A483 in regard to air quality. Walkers and cyclists would probably benefit the most from this option due to the widening of the pavements and reduction of HGVs in the town centre.

NB7: Opsiwn cyfun heb ffordd osgoi (dim cyfyngiad HGV)

NB7: Combined No bypass (No HGV restriction)

Disgrifiad: Mae’r opsiwn hwn yn becyn o waith sy’n cyfuno elfennau o NB1 a NB2.	Description: This option is a package of works representing a combination of NB1 and NB2.
---	---

Lleoliad:	Location:
------------------	------------------



Sut mae’n mynd i’r afael â’r problem: Gall NB7 leihau gwahanu ardaloedd o boptu’r A483/Stryd Rhosmaen yn Llandeilo, ynghyd â gwella dibynadwyedd taith trwy ddarparu llwybr uniongyrchol gyda thraffig yn llifo. Yn ogystal, rhagwelir y bydd cyflymiad cerbydau ar yr A483 yn lleihau oherwydd lleihad yn nifer y cerbydau sy’n parcio. Byddai’r opsiwn hwn yn lleihau llygredd aer o fewn yr ARhAA.	How it tackles the problem: NB7 may reduce severance along the A483/Rhosmaen Street within Llandeilo as well as improve journey reliability due to providing a direct, free-flow route. It is also anticipated that vehicle acceleration on the A483 would reduce due to the reduction in parked vehicles. This option would result in a reduction in air pollution within the AQMA.
Ar bwy mae’r opsiwn yn effeithio: Rhagwelir y byddai gan yr opsiwn hwn ychydig o anafateision i ddefnyddwyr cerbydau ysgafn a thrwm. O ganlyniad, fodd bynnag, byddai’n cynnig ychydig o fudd i anheddau preswyl a busnesau o safbwynt ansawdd aer yn lleol. Mae’n debygol mai cerddwyr a beicwyr fyddai’n elwa fwyaf gyda’r opsiwn hwn, yn sgil lledu palmentydd a lleihad yn nifer y cerbydau HGV yng nghanol y dref.	Who the option impacts on: It is anticipated that there would be a slight adverse impact on light and heavy vehicle users. However, as a result of this, it is anticipated that there will be a slight beneficial effect on residential properties and businesses in terms of local air quality. Walkers and cyclists would most benefit from this option due to the widening of the footways and the reduction of HGVs in the town centre.

TC1A: System Unffordd a Ffordd Osgoi (a)

TC1A: One-way system and bypass

Disgrifiad:


Stryd Rhosmaen o gyffordd Heol Newydd/ Heol Cilgant i Stryd Caerfyrddin a Theras yr Abaty yn newid yn unffordd tua’r de, ond ar agor i bob cerbyd. Cyfyngiad pwysau ar Stryd Rhosmaen o Stryd y Brenin i Gylchfan Ffairfach. Lledu palmentydd oddi mewn i ran unffordd Stryd Rhosmaen i ganiatáu defnydd mwy diogel ohonynt gan gerddwyr.

Description:

Rhosmaen Street from New Road/Crescent Road junction to Carmarthen Street and Abbey Terrace changed to one-way southbound but open to all vehicles. Rhosmaen Street between King Street and Ffairfach Roundabout is weight restricted Pavements to be widened within the one-way section of Rhosmaen Street to enable safer use by pedestrians.

Lleoliad:

Location:



Sut mae’n mynd i’r afael â’r problem:

Mae opsiwn TC1A yn ddibynnu ar adeiladu ffordd osgoi i ddileu traffig trwodd. Byddai TC1A yn lleihau gwahanu ardaloedd o boptu’r A483/Stryd Rhosmaen i gerddwyr, ond byddai cynnydd bychan ar Stryd Caerfyrddin. Byddai diogelwch cerddwyr yn gwella, yn ogystal â’r amgylchedd beicio. Gallai’r gwelliant yn y strydlyn i ymwelwyr arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy’n siopa yn y dref. Byddai’r opsiwn hwn yn lleihau llygredd aer o fewn yr ARhAA.

How it tackles the problem:

Option TC1A is dependent on the construction of a bypass to remove through traffic. TC1A would reduce severance for pedestrians along the A483/Rhosmaen Street but there would be a slight increase in severance on Carmarthen Road. Pedestrian safety would also improve as well as the cycling environment. The improvement to the streetscape for visitors may result in increased numbers of people shopping in the town. This option would result in a reduction in air pollution within the AQMA.

Ar bwy mae’r opsiwn yn effeithio:

Dylai holl ddefnyddwyr y ffordd elwa ar y cynllun hwn, gyda busnesau yng nghanol tref Llandeilo a Pharc Dinefwr yn gweld budd, gan y dylai lledu’r palmentydd wella profiad ymwelwyr.

Who the option impacts on:

All road users should experience benefits with this option with businesses in Llandeilo’s Town Centre and Dinefwr Park also benefiting as the widening of pavements should improve visitor experience.

BE1A: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (A)

BE1A: Eastern Bypass Option 1(A)

Welsh Description:


Mae Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (A) yn gadael yr A40 ar gylchfan yr A40/A483, gan fynd i’r de ddwyrain o gwmpas ffin Llandeilo, i’r gorllewin o’r rheilffordd ac yn dilyn y rheilffordd. Mae’r llwybr wedyn yn troi tua’r gorllewin, gan groesi’r Afon Tywi cyn ymuno â’r A483 i’r de o Bont Llandeilo. Byddai cylchfan arfaethedig yn cael ei hadeiladu ar yr A483 i’r de o Bont Llandeilo. Mae’r llwybr wedyn yn mynd ymhellach i’r gorllewin ac yn ymuno â’r A476 i’r dwyrain o Ysgol Bro Dinefwr. Mae’r llwybr wedyn yn mynd tua’r de ddwyrain ac yn ymuno â’r A483 i’r de o Heol Pen Storum.

Description:

Eastern Bypass Option 1 (A) leaves the A40 at the A40/A483 Roundabout, heading south east around the boundary of Llandeilo, to the west of the railway line and follows the railway line. The route then heads west, crossing the Afon Tywi then joins the A483 to the south of Llandeilo Bridge. A proposed roundabout would be constructed on the A483 to the south of Llandeilo Bridge. The route then heads further west and joins the A476 to the east of Ysgol Bro Dinefwr. The route then heads south east and joins the A483 to the south of Heol Pen Storum.

Lleoliad:

Location:



Sut mae’n mynd i’r afael â’r broblem:

Byddai BE1A yn gwella dibynadwyedd taith trwy ddarparu llwybr uniongyrchol gyda thraffig yn llifo, gan osgoi’r mannau cul yn Llandeilo/ Ffair-fach. Dylai diogelwch cerddwyr a beicwyr yn Llandeilo a Ffair-fach wella, a gall niferoedd ymwelwyr gynyddu yn sgil lleihad yn y siwrneiau traffig trwodd o ganlyniad i ffordd osgoi.

Dylid gweld lleihad mewn traffig HGV a thraffig ysgol yn Llandeilo/Ffair-fach a dylai amseroedd ymateb y gwasanaethau brys (ar alw) wella hefyd.

Ar bwy mae’r opsiwn yn effeithio:

Mae disgwyl buddion canolradd i holl ddefnyddwyr y ffordd gyda’r cynllun hwn, o safbwynt amser teithio a dibynadwyedd amser teithio. Disgwylir ychydig o fudd i fusnesau yng nghanol tref Llandeilo. Rhagwelir buddion canolradd o ran ansawdd aer lleol ger yr A483, er y bydd anfanteision i breswylwyr agos at y ffordd osgoi. Mae’n debygol mai cerddwyr a beicwyr fyddai’n elwa fwyaf, yn sgil lleihad yn nifer y cerbydau sy’n teithio trwy Landeilo a Ffair-fach.

How it tackles the problem:

BE1A would improve journey reliability due to providing a direct, free-flow route which would avoid the pinch points within Llandeilo/Ffairfach. Pedestrian and cyclist safety within Llandeilo and Ffairfach will be improved and visitor numbers could increase due to fewer through-traffic journeys with a bypass in place.

Who the option impacts on:

All road users are expected to benefit moderately with this option through improved journey times and reliability. The local economy in Llandeilo’s Town Centre is expected to benefit slightly. A moderate beneficial impact is predicted in relation to air quality in the vicinity of the A483 although there will be disbenefits for residents living close to the bypass. Walkers and cyclists are expected to benefit most due to a reduction in vehicles passing through the centres of Llandeilo and Ffairfach.

BE1B: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (B)

BE1B: Eastern Bypass Option 1(B)

Disgrifiad:


Mae Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (B) yn gadael yr A40 ar gylchfan yr A40/ A483, gan fynd i’r de ddwyrain o gwmpas ffin Llandeilo, i’r gorllewin o’r rheilffordd ac yn dilyn y rheilffordd, cyn troi tua’r gorllewin, gan groesi’r Afon Tywi ac ymuno â’r A483 ar gylchfan arfaethedig i’r de o Bont Llandeilo. Mae’r llwybr wedyn yn mynd tua’r de orllewin ac yn ymuno â’r A476 ar gylchfan newydd i’r gorllewin o Ysgol Bro Dinefwr.

Description:

Eastern Bypass Option 1 (B) leaves the A40 at the A40/A483 roundabout, heading south east around the boundary of Llandeilo, to follow the railway line on its western side. The route then heads west, crossing the Afon Tywi to join the A483 at a new roundabout to the south of Llandeilo Bridge. The route then heads south west and joins the A476 at a new roundabout to the west of Ysgol Bro Dinefwr.

Lleoliad:

Location:



Sut mae’n mynd i’r afael â’r broblem:

Byddai BE1B yn gwella dibynadwyedd taith trwy ddarparu llwybr uniongyrchol gyda thraffig yn llifo, gan osgoi’r mannau cul yn Llandeilo/Ffairfach. Byddai diogelwch cerddwyr a’r amgylchedd beicio hefyd yn gwella, gan ddenu ymwelwyr. Byddai lleihad mewn traffig HGV a thraffig ysgol yn Llandeilo a rhannau o Ffairfach hefyd. Gall niferoedd ymwelwyr gynyddu yn sgil lleihad yn y siwrneiau traffig trwodd o ganlyniad i ffordd osgoi. Ymhellach, byddai amseroedd ymateb y gwasanaethau brys (ar alw) yn gwella. Byddai’r opsiwn hwn yn lleihau llygredd aer o fewn yr ARhAA.

How it tackles the problem:

BE1A would improve journey reliability due to providing a direct, free-flow route which would avoid many of the pinch points within Llandeilo/ Ffairfach. Pedestrian safety, as well as the cycling environment would also improve, encouraging visitors. HGV and school traffic would also reduce within Llandeilo and parts of Ffairfach. Visitor numbers could increase due to fewer through-traffic journeys with a bypass in place. Further to this, emergency service response times (on call) would improve. This option would result in a reduction in air pollution within the AQMA.

Ar bwy mae’r opsiwn yn effeithio:

Mae disgwyl buddion canolradd i holl ddefnyddwyr y ffordd gyda’r cynllun hwn, o safbwynt amser teithio a dibynadwyedd amser teithio. Disgwylir ychydig o fudd i’r economi leol ac i ansawdd aer yn lleol ger yr A483, er y bydd ychydig o anafanteision yn agosach at y ffordd osgoi. Rhagwelir anafanteision mawr i dirlun a threflun, bioamrywiaeth a’r amgylchedd dŵr, ond ychydig o fudd i deithio llesol, mynediad at wasanaethau a chyflogaeth a nifer y damweiniau yn yr ardal.

Who the option impacts on:

A moderate beneficial impact upon journey time and reliability for all road users is anticipated. There will be a slight beneficial impact upon the local economy and local air quality near the A483 although there will be slight disbenefits close to the bypass. It is expected that there would be a large adverse impact upon landscape and townscape, bio-diversity and the water environment, but a slight beneficial impact on active travel, access to services and employment as well as on accidents in the area.

BE1C: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (C)

BE1C: Eastern Bypass Option 1(C)


Disgrifiad:

Mae Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (C) yn gadael yr A40 ar gylchfan yr A40/ A483, gan fynd i’r de ddwyrain o gwmpas ffin Llandeilo, i’r gorllewin o’r rheilffordd ac yn dilyn y rheilffordd. Mae’r llwybr wedyn yn troi tua’r gorllewin, gan ymuno â’r A483 i’r de o Bont Llandeilo. Mae’r llwybr wedyn yn mynd ymhellach i’r gorllewin ac yn ymuno â’r A476 i’r gorllewin o Ysgol Bro Dinefwr.

Description:

Eastern Bypass Option 1 (C) leaves the A40 at the A40/A483 roundabout, heading south east around the boundary of Llandeilo, to the west of the railway line and follows the railway line. The route then heads west to join the A483 to the south of Llandeilo Bridge. The route then heads further west and joins the A476 to the west of Ysgol Bro Dinefwr.

Lleoliad:



Location:

Sut mae’n mynd i’r afael â’r problem:

Byddai BE1C yn gwella dibynadwyedd taith trwy ddarparu llwybr uniongyrchol gyda thraffig yn llifo, gan osgoi’r mannau cul yn Llandeilo/Ffair-fach. Byddai diogelwch cerddwyr a’r amgylchedd beicio yn gwella, gan annog ymwelwyr. Byddai lleihad mewn traffig HGV a thraffig ysgol yn Llandeilo/Ffair-fach hefyd. Ymhellach, byddai amseroedd ymateb y gwasanaethau brys (ar alw) yn gwella. Byddai’r opsiwn hwn yn lleihau llygredd aer o fewn yr ARhAA.

How it tackles the problem:

BE1C would improve journey reliability due to providing a direct, free-flow route which avoids the pinch points within Llandeilo/ Ffairfach. Pedestrian safety, as well as the cycling environment would also improve, encouraging visitors. HGV and school traffic would also reduce within Llandeilo/Ffairfach. Further to this, emergency service response times (on call) would improve. This option would result in a reduction in air pollution within the AQMA.

Ar bwy mae’r opsiwn yn effeithio:

Rhagwelir ychydig o fudd i amser teithio a dibynadwyedd teithio, ac i’r economi leol. Bydd ychydig o fudd i ansawdd aer yn lleol ger yr A483, er y bydd ychydig o anfanteision yn agosach at y ffordd osgoi. Bydd anfanteision mawr i dirlun a threflun, bioamrywiaeth a’r amgylchedd dŵr, ond ychydig o fudd i weithgaredd corfforol, ansawdd taith, damweiniau a mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau.

Who the option impacts on:

It is expected that there will be a slight beneficial impact on journey time and reliability and also on the local economy. There is also a slight beneficial impact on the local air quality near the A483 although there will be slight disbenefits close to the bypass. There will be a large adverse impact upon landscape and townscape, bio-diversity and the water environment, with a slight beneficial impact expected upon physical activity, journey quality, accidents and access to employment and services.

BE4D: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Canol Rhosmaen 4 (D)

BE4D: Mid Rhosmaen Eastern Bypass Option 4 (D)

Disgrifiad:


Mae Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Canol Rhosmaen 4 (D) yn gadael yr A40 i'r gogledd ddwyrain o gylchfan yr A40/A483, ar gyffordd newydd ger gwesty'r Plough Inn. Mae'r llwybr yn croesi'r rheilffordd a'r Afon Tywi gan ddefnyddio un strwythur, cyn cysylltu â Heol Bethlehem. Mae'n gadael Heol Bethlehem i'r gorllewin o'r hen ysgol uwchradd, gan ymuno â'r A483 i'r gogledd o Heol Pen Storum. Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am gyswllt gyda'r A476.

Description:

Mid Rhosmaen Eastern Bypass Option 4 (D) leaves the A40 to the north east of the A40/A483 roundabout, using a new junction by the Plough Inn Hotel. The route crosses the railway and the Afon Tywi using a single structure, linking to Bethlehem Road. It leaves Bethlehem Road to the west of the former secondary school, to join the A483 to the north of Heol Pen Storum. This option would require a link to the A476.

Lleoliad:

Location:



Sut mae'n mynd i'r afael â'r problem:

Byddai BE4D yn lleihau gwahanu ardaloedd o boptu'r A483/Stryd Rhosmaen yn Llandeilo, ynghyd â gwella dibynadwyedd taith trwy ddarparu llwybr uniongyrchol gyda thraffig yn llifo, gan osgoi'r mannau cul yn Llandeilo a Ffair-fach. Byddai diogelwch cerddwyr a'r amgylchedd beicio yn gwella, gan annog ymwelwyr. Byddai lleihad mewn traffig HGV a thraffig ysgol yn Llandeilo a Ffair-fach hefyd. Ymhellach, byddai amseroedd ymateb y gwasanaethau brys (ar alw) yn gwella. Byddai'r opsiwn hwn yn lleihau llygredd aer o fewn yr ARhAA.

How it tackles the problem:

BE4D would reduce severance along the A483/Rhosmaen Street within Llandeilo as well as improve journey reliability due to providing a direct, free-flow route which would avoid the pinch points within Llandeilo/Ffairfach. Pedestrian safety, as well as the cycling environment would also improve, encouraging visitors. HGV and school traffic would also reduce within Llandeilo/Ffairfach. Further to this, emergency service response times (on call) would improve. This option would result in a reduction in air pollution within the AQMA.

Ar bwy mae'r opsiwn yn effeithio:

Disgwylir buddion canolradd i amser teithio/dibynadwyedd amser teithio, ac ychydig o fudd i'r economi leol. Bydd ychydig o fudd i ansawdd aer yn lleol hefyd. Rhagwelir anfanteision mawr i dirlun a threflun, a bioamrywiaeth. O safbwynt cymdeithasol a diwylliannol, disgwylir ychydig o fudd i weithgaredd corfforol, ansawdd taith, damweiniau a mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau.

Who the option impacts on:

It is expected that there will be a moderate beneficial impact on journey time changes/reliability and have a slight beneficial impact on the local economy. There is also a slight beneficial impact on the local air quality. It is also expected that there will be a large adverse impact upon landscape and townscape and bio-diversity. In relation to social and cultural there is a slight beneficial impact expected upon physical activity, accidents and access to employment and services.

BE6: Ffordd Osgoi Ddwyreiniol 6

BE6: Eastern Bypass Option 6

Disgrifiad:


Mae’r opsiwn yma yn gadael yr A40 ar gylchfan yr A483, gan fynd tua’r de ddwyrain, i’r dwyrain o Llandeilo ac i’r gorllewin o’r rheilffordd. Mae’n mynd yn agosach i’r dref nag opsiynau BE1A – BE1D cyn ymuno â’r A483 i’r de o Bont Llandeilo. Mae yna’n mynd i’r gorllewin o Ffair-fach, gyda chylchfannau ar yr A476 i’r gorllewin a’r A483 i’r de.

Description:

This option leaves the A40 at the A483 roundabout, heading south east around the east of Llandeilo to the west BE6 of the railway. It passes closer to the town than options BE1A – BE1D before meeting the A483 to the south of Llandeilo Bridge. It then passes to the west of Ffairfach with roundabouts on the A476 to the west and the A483 to the south.

Lleoliad:

Location:



Sut mae’n mynd i’r afael â’r broblem:

Gallai BE6 leihau gwahanu ardaloedd o boptu’r A483/Stryd Rhosmaen yn Llandeilo, ynghyd â gwella dibynadwyedd taith trwy ddarparu llwybr uniongyrchol gyda thraffig yn llifo, gan osgoi’r mannau cul yn Llandeilo a Ffair-fach. Byddai diogelwch cerddwyr a’r amgylchedd beicio yn gwella, gan annog ymwelwyr. Byddai lleihad mewn traffig HGV a thraffig ysgol yn Llandeilo a Ffair-fach hefyd. Ymhellach, byddai amseroedd ymateb y gwasanaethau brys (ar alw) yn gwella. Byddai’r opsiwn hwn yn lleihau llygredd aer o fewn yr ARhAA.

How it tackles the problem:

BE6 may reduce severance along the A483/ Rhosmaen Street within Llandeilo as well as improve journey reliability due to providing a direct, free-flow route which would avoid the pinch points within Llandeilo/Ffairfach. Pedestrian safety, as well as the cycling environment would also improve, encouraging visitors. HGV and school traffic would also reduce within Llandeilo/Ffairfach. Further to this, emergency service response times (on call) would improve. This option would result in a reduction in air pollution within the AQMA.

Ar bwy mae’r opsiwn yn effeithio:

Disgwyli’r budd canolradd i ddibynadwyedd amser teithio, ac ychydig o fudd i’r economi leol a newidiadau i amseroedd teithio. Bydd buddion mawr i ansawdd aer yn lleol ac i sŵn yng nghanol y dref, er y bydd ychydig o anafanteision yn agosach at y ffordd osgoi. Disgwyli’r hefyd anafanteision mawr i dirlun a threflun, a bioamrywiaeth. O safbwynt cymdeithasol a diwylliannol, disgwyli’r ychydig o fudd i weithgaredd corfforol, ansawdd taith, damweiniau a mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau.

Who the option impacts on:

It is expected that there will be a slight beneficial impact on journey time and reliability and also on the local economy. There is also a slight beneficial impact on the local air quality near the A483 although there will be slight disbenefits close to the bypass. It is also expected that there will be a large adverse impact upon landscape and townscape, bio-diversity and the water environment. In relation to social and culture, there is a slight beneficial impact expected upon physical activity, journey quality, accidents and access to employment and services.

Opsionau llai ffafriol

Daethpwyd i’r casgliad fod yr opsiynau canlynol yn llai ffafriol yn ystod arfarniad Cam Un. Mae pob opsiwn wedi’i ddyrannu i fandiau cost:

- (Isel) llai na £50m
- (Canolig) £50m i £60m
- (Uchel) dros £60m

Nid oes modd cyflawni opsiynau gyda chost o dros £60 miliwn ar sail ystyriaethau ariannol.


Opsiwn	I ba raddau mae’n ateb yr amcanion
Gwneud y Lleiafswm	- Ni fyddai’r Opsiwn Gwneud y Lleiafswm yn datrys problemau yn Llandeilo a Ffair-fach gan y rhagwelir y bydd llif traffig yn parhau i gynyddu; - Byddai cerbydau HGV yn parhau i ddefnyddio cefnffordd yr A483 felly byddai tagfeydd yn y man cul yn Llandeilo yn gwaethygu; - Mae ansawdd aer o fewn yr ARhAA yn debygol o waethygu; a - Ni fyddai’r Opsiwn Gwneud y Lleiafswm yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru, nac i gyflawni rhai o’r canlyniadau tymor hir a nodwyd yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.
NB3: Cyfyngiad HGV (cosb gyfreithiol)	- Nid yw’r opsiwn hwn yn cynnal swyddogaeth strategol yr A483, yn cyfrannu at dwf economaidd cynaliadwy a chyfleoedd twristiaeth yn Llandeilo nac yn cefnogi’r trawsnewid i gymdeithas carbon isel; - Byddai cerbydau HGV yn gweld cynnydd sylweddol mewn amseroedd teithio yn sgil y dargyfeiriad arfaethedig ar hyd yr A40 i Gaerfyrddin; a - Byddai traffig ychwanegol ar hyd yr A40 rhwng Caerfyrddin a Llandeilo.
NB4: Cyfyngiad HGV gyda thrwydded/ffi allyriadau	- Ni fyddai’r opsiwn hwn yn cynnal swyddogaeth strategol yr A483 nac yn gwella dibynadwyedd amser teithio trwy Landeilo a Ffair-fach; - Ni fyddai’r opsiwn hwn yn cyfrannu at dwf economaidd cynaliadwy a chyfleoedd twristiaeth yn Llandeilo nac yn cefnogi’r trawsnewid i gymdeithas carbon isel; - Byddai traffig ychwanegol ar hyd yr A40 rhwng Caerfyrddin a Llandeilo; - Teithiau hirach i gerbydau HGV sy’n cael eu dargyfeirio am Gaerfyrddin; a - Mae posibilrwydd i ddefnyddwyr ffordd wynebu oedi yn ystod datblygiad yr opsiwn cyfyngu cerbydau HGV.
TC1B: System Unffordd a Ffordd Osgoi (B)	- Nid yw’n lleihau amlygiad i dderbynyddion sensitif nac yn cefnogi’r trawsnewid i gymdeithas carbon isel; - Cynnydd mewn llygredd aer a gwahanu ar hyd Stryd Caerfyrddin a Heol Cilgant o ganlyniad i ddefnydd uwch; - Tarfu ar bobl yng nghanol y dref yn ystod y cyfnod adeiladu; - Posiblirwydd o ddryswch tymor byr wrth gyfarwyddo â’r system unffordd; a - Byddai llwybrau bws yn gorfod newid.
TC1C: System Unffordd a Ffordd Osgoi (C)	
TC2: System Goleuadau Traffig a Ffordd Osgoi	- Effeithiau niweidiol posibl ar ansawdd teithio oherwydd ciwio wrth y goleuadau traffig; ac - Effeithiau niweidiol posibl o ganlyniad i gynnwys goleuadau traffig oddi mewn i strydlun yr ardal gadwraeth yma.
BE1D Ffordd Osgoi Ddwyreiniol 1 (D)	- Rhagwelir anfanteision mawr i dirlun a threflun, bioamrywiaeth a’r amgylchedd dŵr. - Bydd yn effeithio ar heneb gofrestredig, adeiladau rhestredig, golygfeydd lleol a golygfeydd o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
BE2-5B: Opsiynau Ffordd Osgoi Ddwyreiniol BE2-5B (ac eithrio BE4B)	- Effeithiau niweidiol posibl ar gymunedau lleol yn ystod y cyfnod adeiladu ac ar breswylwyr lleol sy’n byw yn agos at yr opsiwn ffordd osgoi arfaethedig; - Oedi posibl i ddefnyddwyr ffordd yn ystod datblygu/adeiladu’r opsiwn ffordd osgoi arfaethedig; - Ystyriaethau amgylcheddol yn cynnwys yr effaith bosibl ar lifogydd/rhywogaethau a warchodir; a - Mae’r llwybr cyfan yn mynd trwy Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Byddai’r llwybr yn cael effaith ar y strwythur tirwedd gwledig lleol a nodweddion tirwedd cysylltiedig megis coetir aeddfed a’r Afon Tywi.
ARL1-2: Cyswllt Ffyrdd A (1-2)	- Mae’r llwybr cyfan yn mynd trwy Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol; - Effeithiau niweidiol posibl ar breswylwyr lleol sy’n byw yn agos; a - Ystyriaethau amgylcheddol yn cynnwys yr effaith bosibl ar lifogydd a rhywogaethau a warchodir.
BW1-3CB: Ffordd Osgoi Orllewinol Opsiynau 1-3C	- Mae’r llwybr yn mynd trwy Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, tra bod y rhan ogleddol yn croesi Ardal Gadwraeth a Pharc a Gardd Hanesyddol; - Effaith niweidiol posibl ar gymunedau lleol yn ystod y cyfnod adeiladu ac ar breswylwyr lleol sy’n byw yn agos at yr opsiwn ffordd osgoi arfaethedig; - Oedi posibl i ddefnyddwyr ffordd yn ystod adeiladu’r opsiwn ffordd osgoi arfaethedig; - Ystyriaethau amgylcheddol yn cynnwys yr effaith bosibl ar lifogydd a rhywogaethau a warchodir; - Ystyriaethau amgylcheddol yn cynnwys effaith bendant ar dreftadaeth ddiwylliannol; a - Effeithiau niweidiol posibl ar yr economi leol, yn enwedig Parc Dinefwr oherwydd aliniad y ffordd osgoi arfaethedig.
BW4: Gorllewin o Ddinefwr (dwyrain)	- Mae’r llwybr cyfan yn mynd trwy Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, gyda’r rhan fwyaf o’r llwybr yn mynd trwy Ardal Gadwraeth. Mae’r llwybr yn mynd ar hyd ffin orllewinol Parc a Gardd Hanesyddol; - Effaith niweidiol posibl ar breswylwyr lleol sy’n byw yn agos at yr opsiwn ffordd osgoi arfaethedig; a - Ystyriaethau amgylcheddol yn cynnwys yr effaith bosibl ar lifogydd, rhywogaethau a warchodir a threftadaeth ddiwylliannol.
BW5A-C: Gorllewin o Ddinefwr (A-C)	- Mae’r llwybr yn mynd trwy Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol; - Effaith niweidiol bosibl ar breswylwyr lleol sy’n byw yn agos at yr opsiwn ffordd osgoi arfaethedig; - Oedi posibl i ddefnyddwyr ffordd yn ystod adeiladu’r opsiwn ffordd osgoi arfaethedig; a - Ystyriaethau amgylcheddol yn cynnwys yr effaith bosibl ar lifogydd a rhywogaethau a warchodir.
BW6: Llwybr Gorllewinol Pell (trwy Dryslwyn)	- Byddai’r llwybr yn gwahanu ardaloedd o goetir hynafol; - Effaith niweidiol posibl ar gymunedau lleol yn ystod y cyfnod adeiladu ac ar breswylwyr lleol sy’n byw yn agos at yr opsiwn ffordd osgoi arfaethedig; - Oedi posibl i ddefnyddwyr ffordd yn ystod adeiladu’r opsiwn ffordd osgoi arfaethedig; - Ystyriaethau amgylcheddol yn cynnwys yr effaith bosibl ar lifogydd a rhywogaethau a warchodir.
BT1: Twnnel	- Cost sylweddol; - Byddai angen cario deunyddiau gwastraff sylweddol o’r safle; - Mae posibilrwydd y bydd ansawdd dŵr daear yn cael ei effeithio; a - Gallai drilio’r twnnel gael effaith negyddol ar rywogaethau.

Opsiynau llai ffafriol (parhad)


Less favoured options (continued)

Nodir yr opsiynau llai ffafriol yma ar y cynlluniau canlynol:
These less favoured options are identified on the following plans:

Cynllun 1: Ffordd osgoi ddwyreiniol/Plan 1: Eastern bypass



Cynllun 2: Ffordd osgoi orllewinol/Plan 2: Western bypass




Opsionau llai ffafriol (parhad)

Less favoured options (continued)


Nodir yr opsiynau llai ffafriol yma ar y cynlluniau canlynol:
These less favoured options are identified on the following plans:

Cynllun 3: Llwybr Gorllewinol Pell a Ffordd Gyswllt

Plan 3: Far West Route and Link Road



Cynllun 4: Canol y Dref/Plan 4: Town Centre



Adborth a'r Camau Nesaf

Rydym yn croesawu'ch barn ynghylch yr opsiynau a nodwyd.

Adborth

Mae'r paneli gwybodaeth sy'n cael eu harddangos yma hefyd ar gael ar-lein ar wefan Prosiect Llandeilo Llywodraeth Cymru, lle mae'n bosibl gweld yr adroddiadau Cam Un llawn (<https://llyw.cymru/astudiaeth-trafnidiaeth-a483-llandeilo-a-ffair-fach>)

- Astudiaeth Trafnidiaeth A483 Crynodeb WelTAG Cam Un Adroddiad WelTAG Un gan Jacobs dyddiedig Hydref 2018
- Astudiaeth Trafnidiaeth A483 Adroddiad Cam Un WelTAG gan Jacobs dyddiedig Tachwedd 2018

Gellir anfon sylwadau hefyd at:
A483-Llandeilo@capita.co.uk

Mae ffurflenni adborth ar gael yn y digwyddiad heddiw, felly holwch i aelod o'n staff am gopi papur.

Y dyddiad cau ar gyfer yr holl ymatebion yw 6 Mai 2019.

Camau Nesaf

Yn dilyn eich adborth ar yr argymhellion, byddwn yn adrodd yn ôl at y Grŵp Adolygu Astudiaeth.

Wrth i'r astudiaeth trafndiaeth barhau trwy WelTAG Cam Dau, bydd yr effeithiau y dylid eu hystyried yn adeiladu ar y rhai a gafodd eu hystyried yng Ngham Un, gyda gwybodaeth fanylach a nodwyd ar gyfer pob un o'r meysydd pwnc yn cael eu cynnwys yn y tablau asesu.

Mae WelTAG Cam 2 wedi'i bennu i gael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2019.

Bydd yr astudiaeth yn ystyried amrywiaeth o ddeddfwriaeth, yn cynnwys darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ynghyd ag ystod lawn o ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n ffurfio sail y cyfyngiadau amgylcheddol, yn cynnwys deddfwriaeth yn ymwneud ag ansawdd aer, bioamrywiaeth, ansawdd dŵr, treftadaeth ddiwylliannol a thirlun.

Feedback and Next Steps

We welcome your thoughts on all the options identified.

Feedback

The information panels displayed here can be accessed online via the Welsh Government Llandeilo Project Website where it is possible to view the full Stage 1 reports:
(<https://gov.wales/a483-llandeilo-and-ffairfach-transport-study>)

- A483 Transport Study WelTAG Stage One Summary WelTAG One Report by Jacobs dated October 2018
- A483 Transport Study WelTAG Stage One Report by Jacobs dated November 2018

Comments can also be sent to:
A483-Llandeilo@capita.co.uk

There are also feedback forms available at today's event so please ask a member of staff for a paper copy.

The closing date for all responses is 6th May 2019

Next steps

Following your feedback on the proposals, we will be reporting back to the Study Review Group.

As the transport study progresses through WelTAG Stage Two, the impacts that should be considered will build on those that were considered at Stage One, with more detailed information identified for each of the topic areas set out in the assessment tables.

WelTAG Stage 2 is programmed for completion in November 2019.

The study will consider a range of legislation, which includes, the provisions of the Active Travel (Wales) Act 2013 and the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, as well as a suite of environmental legislation which forms the basis of the environmental constraints, including legislation with regard to air quality, biodiversity, water quality, cultural heritage and landscape.